**Agenda item 16**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21ain Hydref 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Natalie Lloyd Jones, Swyddog Iaith Gymraeg** |
| Pwnc | **Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg 2023/24** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1. I gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau, Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023/24 mewn perthynas â'r canlynol;

    a. Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg 155,161,167, sy'n manylu ar y ffaith bod yn rhaid i'r Awdurdod gynhyrchu adroddiad monitro bob blwyddyn ariannol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2. Mae'r Adroddiad Monitro atodol yn amlinellu sut mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â'r safonau a grybwyllir uchod, yn bennaf y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau a'r Safonau Gweithredol.

3. Mae'r Adroddiad Monitro yn tynnu sylw at sut mae'r Gymraeg wedi cael ei fonitro, hyrwyddo a datblygu o fewn y Gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiad y Gymraeg o fewn y Gwasanaeth yn ogystal â'r cyfleoedd sydd wedi eu nodi ar gyfer gwella yn y dyfodol.

## ARGYMHELLIAD

4. Bod Aelodau yn:

    a. cymeradwyo Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023/34 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod; ac

    b. nodi bwriad y Gwasanaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ddogfen fel y nodwyd yn Safonau 155,161,167.

## CEFNDIR

5. Ers 30 Mawrth 2017, mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu rheoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg a disodli'r system flaenorol o gynlluniau iaith Gymraeg. Rhaid i'r Gwasanaeth lunio adroddiad blynyddol sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â'r safonau.

## GWYBODAETH

6. Eleni, mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer 2023-24 yn ymddangos fel dogfen annibynnol yn hytrach na chael ei hymgorffori o fewn y ddogfen Asesiad Perfformiad Blynyddol.

7. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwerthoedd craidd ac mae'n hanfodol i'n hegwyddorion Pobl, Atal, ac Amddiffyn, sy'n rhan o'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024 – 2029.

8. 31ain o Fawrth 2024, roedd 88.2% o'n staff yn gallu dangos bod ganddynt sgiliau iaith Gymraeg (Lefel 1 ac uwch), gyda 38.6% ohonynt yn siaradwyr rhugl (Sgiliau Lefel 4 a 5). Mae hyn wedi cynyddu o'i gymharu â 37% yn y flwyddyn flaenorol.

9. Mae dysgu Cymraeg hefyd wedi cael ei symud yn fewnol a hwylusir gan diwtoriaid o Goleg Cambria ac mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, gan hwyluso'r broses i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

10. Am y chweched flwyddyn yn olynol, ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â'r Gymraeg.

11. Mae'r camau niferus a gymerwyd gan yr Awdurdod i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog dewis iaith ar gyfer yr holl staff a defnyddwyr y Gwasanaeth hefyd yn cael eu disgrifio yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys y gwahanol ffyrdd y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo'n fewnol ac yn allanol.

## GOBLYGIADAU

| **Amcanion Lles** | |
|---|---|
| **Cyllid** | Dim un wedi'i adnabod. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r ddogfen yn cyflawni dyletswyddau'r Awdurdod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

| | |
|---|---|
| **Staffio** | Dim un wedi'i adnabod. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol / Y Gymraeg** | Mae goblygiadau i'r Gymraeg i'w gweld yn y ddogfen hon. |
| **Risgiau** | Dim un wedi'i adnabod. |